



Eich cyf | Your ref  
Ein cyf | Our ref:

Prif Swyddogion Cynllunio  
Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru

07 Rhagfyr 2015

Annwyl gydweithwyr

## **Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015 a Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015**

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi llofnodi, a thrwy hynny wedi rhoi'r gorchmynion a enwir uchod ar 5 Hydref a 2 Rhagfyr, yn ôl eu trefn. Mae'r Gorchmynion yn rhoi grym i gyfres o ddarpariaethau a geir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n bennaf yn canolbwyntio ar newidiadau i'r cynllun datblygu a swyddogaethau ffurfio polisïau. Mae'r llythyr hwn yn nodi beth fydd effaith ymarferol cychwyn y darpariaethau amrywiol sy'n gynwysedig yn y ddau orchymyn cychwyn.

### **Cynlluniau Datblygu Strategol**

Cychwynnwyd y darpariaethau yn adran 4 a rhan 1 atodlen 1 y Ddeddf Gynllunio ar 5 Hydref er mwyn galluogi'r broses o ddynodi ardaloedd cynllunio strategol a sefydlu panelau cynllunio strategol. Mae hyn yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i allu ystyried gwerth a rhesymeg sefydlu ardal cynllun datblygu strategol.

### **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

Mae Adran 3 y Ddeddf Gynllunio yn galluogi Gweinidogion Cymru i baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDC), fydd yn nodi'r polisïau defnydd tir strategol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy'n briodol.

Yn fras, bydd y FfDC yn dilyn yr un broses baratoi â Chynllun Datblygu Lleol (CDLI), ac, ar ôl ei gyhoeddi, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl fathau eraill o gynlluniau datblygu, megis Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a CDLlau, gydymffurfio â'r polisïau a geir ynddo. Fodd bynnag, nes bydd y FfDC wedi cael ei ffurfio a'i gymeradwyo, dylech barhau i roi ystyriaeth i Gynllun Gofodol Cymru.



Nawr bydd gwaith yn cychwyn ar sefydlu cronfa o dystiolaeth ar gyfer hysbysu cynnwys FfDC, ac ar greu amserlen gyflawni a datganiad ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd, a rydym yn amcanu at eu cyhoeddi yn ystod haf 2016.

## **Datblygu cynaliadwy**

Mae'r Ddeddf Cynllunio yn nodi pwrpas statudol ar gyfer cynllunio yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol, Gweinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, pan fyddant yn ymgymryd ag unrhyw gynllun datblygu neu swyddogaethau rheoli datblygiad, gyfrannu at wella llesiant Cymru wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r ddarpariaeth yn darparu cysylltiad uniongyrchol â gofynion ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf CD") ac mae'n ategu nodau ac amcanion y Ddeddf honno.

Mae Deddf CD yn cyflwyno cyfres o nodau mewn perthynas â llesiant y dylid anelu atynt wrth weithio tuag at ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf CD yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol, gan nodi sut fyddant yn gweithio tuag at wireddu'r nodau llesiant hynny. Mae'n ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried y cynlluniau llesiant wrth baratoi'r CDLIau ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Bydd Adran 2, pan ddaw i rym ar 01 Ebrill, yn disodli ac yn diddymu elfennau adran debyg yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r ddyletswydd oedd yn gynwysedig yn Neddf 2004 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r system gynllunio sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor greiddiol, neu i'w roi fel arall, mae datblygu cynaliadwy wedi cael ei sefydlu yn y system gynllunio ers nifer o flynyddoedd. Mae'r ddyletswydd yn cael ei disodli gan ddyletswydd debyg iawn i gydymffurfio â datblygu cynaliadwy fel y nodir hynny yn Neddf CD.

Bydd Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ddiweddarau yn y tymor byr, er mwyn rhoi eglurder ac arweiniad i chi ynghylch sut y dylid ystyried nodau Deddf CD wrth baratoi cynlluniau ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad llawn o PCC er mwyn alinio ei bolisiâu cynllunio â'r nodau llesiant, maes o law. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â sut fydd PCC yn cael ei adolygu er mwyn ei alinio â gofynion y Ddeddf Llesiant ar gael yn y Prosbectws Polisi Cynllunio (Ionawr 2015) a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

## **Yr Iaith Gymraeg**

Mae'r Ddeddf Cynllunio yn cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn y system gynllunio. Gyda'i gilydd, mae Adrannau 11 a 31 yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth gyson a phriodol i'r Iaith Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Bydd y pwerau hyn yn dod i rym ar 04 Ionawr 2016.

Mae Adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr Iaith Gymraeg wrth gynnal gwerthusiad cynaliadwyedd, fel rhan o waith paratoi'r CDLI. Mae hyn yn sicrhau bod rhaid i'r gwerthusiad gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y gymuned. Bydd Adran 11 yn destun darpariaeth arbed, er mwyn sicrhau na fydd cyflwyno'r ddyletswydd hon yn effeithio ar unrhyw Gynllun Datblygu Lleol sydd eisoes wedi'u cyflwyno ar gyfer archwiliad erbyn 04 Ionawr 2016.

Os na fydd CDLI wedi cael ei gyflwyno ar gyfer archwiliad, mae'n rhaid i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith ar y defnydd o'r laith Gymraeg yn unol ag Adran 11. Pan fo cynllun integredig sengl presennol unrhyw awdurdod wedi nodi bod yr laith Gymraeg yn flaenoriaeth a bod yr awdurdod wedi cychwyn neu wedi cwblhau ei asesiad, dylai allu dangos y cysylltiad rhwng rhoi ystyriaeth i'r laith Gymraeg a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd trosfwaol ar gyfer y CDLI, fel y nodir hynny yn NCT 20.

Mae Adran 31 yn egluro y dylai awdurdod cynllunio lleol, wrth ddelio â cheisiadau am ganiatâd cynllunio, roi ystyriaeth i'r defnydd o'r laith Gymraeg cyn belled â bod hynny'n berthnasol i'r cais. Nid oes yna ddarpariaethau trosiannol neu arbed ar gyfer Adran 31, sy'n golygu bydd y pŵer yn gymwys i unrhyw gais cynllunio fyddwch yn eu hystyried o 04 Ionawr 2016 ymlaen, pryd bynnag y cyflwynwyd y cais.

Nid yw'r darpariaethau yn rhoi unrhyw bwys ychwanegol i'r laith Gymraeg o'i gymharu ag ystyriaethau perthnasol eraill. Mae p'un a yw'r laith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol neu beidio mewn unrhyw gais cynllunio yn dibynnu'n llwyr ar ddisgresiwn yr awdurdod cynllunio lleol, a dylai eich penderfyniad i ystyried materion mewn perthynas â'r laith Gymraeg neu beidio fod yn seiliedig ar yr ystyriaeth a roddwyd gennych i'r laith Gymraeg fel rhan o broses baratoi'r CDLI.

## **Cynlluniau Datblygu Lleol**

Bwriad y newidiadau i'r system CDLI a gyflwynwyd yng Ngorchymyn Cychwyn Rhif 2, yw bod awdurdodau cynllunio lleol nid yn unig yn mynd rhagddynt i fabwysiadu'r CDLlau, ond eu bod hefyd yn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o CDLlau yn cael eu paratoi a'u mabwysiadu'n brydlon.

Mae Adran 12 y Ddeddf yn cyflwyno dyddiad terfynol ar gyfer CDLlau. Pan gyrhaeddir dyddiad terfynol y CDLI, mae'r CDLI yn peidio â bod yn gynllun datblygu at ddibenion gwneud penderfyniadau. O ganlyniad i hynny, bydd yn rhaid i geisiadau cynllunio a ystyrir ar ôl i'r CDLI ddod i ben gael eu hystyried yng ngoleuni'r haenau o gynlluniau datblygu sydd ar ôl, megis y FfDC arfaethedig, unrhyw CDS perthnasol, a'r polisi cynllunio cenedlaethol a fynegir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Mae Adran 13 yn atal tynnu CDLI yn ôl hyd at yr adeg pan fo awdurdodau cynllunio lleol yn cyflwyno'r cynllun datblygu lleol ar gyfer archwiliad, heb ganiatâd ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru.

Mae Adran 14 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i ddau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol (ac eithrio awdurdodau Parciau Cenedlaethol) i baratoi CDLI ar y cyd.

Bydd y pwerau hyn yn dod i rym ar 04 Ionawr 2016 ac nid oes yna ddarpariaethau trosiannol neu arbed. Bydd rheoliadau ategol y pwerau hyn yn cael eu cyflwyno yn ystod haf 2016.



## Cydbwyllgorau Cynllunio

Mae Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â chydbwyllgorau cynllunio, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i ddau neu fwy awdurdod cynllunio lleol uno. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ymestyn ac yn atgyfnerthu'r pwerau hynny.


Mae Adrannau 15(1) a 15 (2) yn sicrhau y gall cydbwyllgor cynllunio weithredu swyddogaethau mewn perthynas â chynllun datblygu ac Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae Adran 40 yn rhoi pwerau awdurdod sylweddau peryglus i gydbwyllgorau cynllunio, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol. Hefyd, mae Adran 42 y Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu math penodol o ddeddfwriaeth arall, os byddant yn defnyddio'u pwerau i greu cydbwyllgor cynllunio.

Mae Parciau Cenedlaethol wedi eu heithrio o bwerau cydbwyllgorau cynllunio presennol. Fodd bynnag, mae Adran 41 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y ffordd y cymhwysir darpariaethau cydbwyllgorau cynllunio er mwyn cynnwys swyddogaethau rheoli datblygu Parciau Cenedlaethol, drwy ddefnyddio rheoliadau; fodd bynnag, ni effeithir ar bwerau cynllunio datblygu'r Parciau Cenedlaethol, a'r CDLI fyddai'r "cynllun" o hyd yn achos awdurdod parc sy'n rhan o gydbwyllgor cynllunio.

Mae'r newidiadau hyn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ynghylch y math o gyrrff all gyflawni rôl awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â swyddogaethau cynllunio statudol, er mwyn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon, effeithiol a chydnerth ar hyd a lled Cymru.

Gyda'i gilydd, bydd gweithredu'r holl newidiadau uchod yn golygu y bydd y system gynllunio yn fwy effeithlon ac ymatebol i anghenion y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio â chi er mwyn rhoi'r newidiadau cadarnhaol yma ar waith, drwy greu deddfwriaeth eilaidd ac arweiniad priodol ychwanegol, maes o law.

Yn gywir



**Neil Hemington**

Prif Gynllunydd | Chief Planner

Cyfarwyddiaeth Cynllunio | Planning Directorate

Yr Adran Cyfoeth Naturiol | Department for Natural Resources